

Y GYFRAITH

Amser - 1.5 awr

Atebwch DRI chwestiwn:

- un o Adran A
- y cwestiwn gorfodol yn Adran B
- y cwestiwn gorfodol yn Adran C

Mae Adran A yn werth 40 marc

Mae Adran B yn werth 30 marc

Mae Adran C yn werth 30 marc

ADRAN A (40 marc)

Atebwch UN o'r cwestiynau canlynol:

1. Trafodwch y rhan y gallai'r gyfraith ei chwarae yn un o'r meysydd canlynol. Esboniwch pam y gallai hynny fod yn ddadleuol. Trafodwch sut ac i ba raddau y gallai'r gyfraith gyfrannu at ddatrys y problemau yn y maes:
 - (a) Ceir heb yrrwyr
 - (b) Rhyddid i lefaru a'r rhyngrwyd
 - (c) Llygredd plastigion
 - (d) Gofalu am yr henoed
2. Beth ydych chi'n ei ddeall yw ystyr y gair "cyfraith"? Pam y mae'n angenrheidiol mewn cymdeithas?
3. Beth yw swyddogaeth a diben cosbi yn y gyfundrefn cyfiawnder troseddol?

Parhad Trosodd

ADRAN B (30 marc)

Yn ôl y gyfraith sy'n ymwneud â byrgleriaeth:

Adran 9 Deddf Dwyn 1968

(1) Mae rhywun yn euog o fyrgleriaeth os -

(a) yw'n mynd i mewn i unrhyw adeilad neu ran o adeilad fel tresmaswr a chyda'r bwriad o gyflawni unrhyw drosedd sy'n cael ei chrybwyll yn isadran (2) isod

...

(2) Y troseddau y cyfeirir atynt yn isadran (1)(a) uchod yw'r drosedd o ddwyn unrhyw beth yn yr adeilad neu ran o adeilad dan sylw, o beri anaf difrifol i unrhyw un ... yno, ac o gyflawni difrod anghyfreithlon i'r adeilad neu i unrhyw beth o fewn iddo.

Chi yw'r barnwr sy'n gorfod penderfynu a yw elfennau'r drosedd wedi eu cyflawni yn yr achosion canlynol:

- a) Achos Holly, a aeth i mewn i fan wersylla ei ffrind heb ganiatâd, er mwyn benthyg £20.
- b) Achos George, a oedd yn yfed yn gyfreithlon mewn tafarn, ac a aeth y tu ôl i'r bar i dywallt diod iddo fe'i hun.

Pa un o'r diffynyddion, os un ohonynt, ydych chi'n penderfynu sy'n euog o fyrgleriaeth? Esboniwch eich rhesymeg ym mhob achos.

ADRAN C (30 marc)

Mae'r cysyniad 'newyddion ffug' wedi denu sylw sylweddol yn y blynyddoedd diweddar, gan esblygu o'i wreiddiau llenyddol dychanol yn ffenomen Rhynggrwyd sy'n cael ei beirniadu'n hallt. Os ydynt yn cael eu galw'n sibrydion, yn "wrth-wybodaeth, "cam-wybodaeth", "ôl-wirioneddau", "ffeithiau gwahanol" neu'n syml yn gelwydd noeth, mae'r datganiadau ffeithiol ffug hyn fel arfer yn cael eu cyhoeddi ar y we a'u lledaenu trwy gyfryngau cymdeithasol er mwyn elw neu ddylanwad cymdeithasol." (David O. Klein a Joshua R. Wueller, Journal of Internet Law, 2017 [cyfieithiad]).

Rhowch un ddadl o blaid ac un ddadl yn erbyn gwneud newyddion ffug yn drosedd.